



YN Y GEGIN

Danteithion crispies reis

Cynhwysion:

- 45g o fenyn
- 300g o falws melys bach
- 180g o crispies reis
- Siocled wedi'i doddi/sbrincyls neu addurniadau

Byddwch hefyd angen:

- Sosban fawr, drom
- Ychydig o olew/olew chwistrell/menyn ar gyfer iro
- Dysgl neu hambwrdd popty dyfn
- Cyllell finiog

YN Y GEGIN - Danteithion crispies reis

Dull:

- Mewn sosban drom, toddwch y menyn a'r malws melys dros wres cymedrol i isel
- Cymysgwch drwy'r amser fel nad yw'r gymysgedd yn llosgi
- Pan fydd y gymysgedd wedi toddi, ychwanegwch y crispies reis a'u troi i mewn i'r gymysgedd yn ofalus, gan sicrhau eich bod yn eu gorchuddio i gyd
- Bydd y gymysgedd yn ludiog iawn ar y cam hwn felly gallai rhoi ychydig o olew ar eich llwy helpu
- Irwch eich dysgl
- Trosglwyddwch eich cymysgedd o'r sosban i'r ddysgl
- Gorchuddiwch eich llwy gydag olew/olew chwistrell eto os bydd angen a defnyddiwch hon i wasgu'r gymysgedd yn dynn i'r ddysgl. Os byddwch yn gweithio'n gyflym ni ddylai fod yn rhy anodd
- Rhowch y ddysgl yn yr oergell am oddeutu awr
- Unwaith y bydd wedi caledu, defnyddiwch gyllell finiog i dorri'r gymysgedd yn sgwariau
- Gallwch doddi ychydig o siocled i'w ddiferu ar y top, neu ychwanegu addurniadau



RHYBUDD:
Gall y gymysgedd
fod yn boeth a
gludiog!